

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Refferendwm ar y system pleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol y DU 2011

Mawrth 2011

Cynhelir refferendwm ar newid y system pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol i Dŷ'r Cyffredin ar 5 Mai 2011, yr un diwrnod ag etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y refferendwm yn rhoi cyfle i bleidleiswyr benderfynu a ddylid mabwysiadu system etholiadol y "Bleidlais Amgen" ar gyfer holl Etholiadau Cyffredinol y DU yn y dyfodol neu a ddylid cadw system bresennol "y Cyntaf i'r Felin".

Mae'r papur hwn yn rhoi cyflwyniad i'r refferendwm a throsolwg ohono. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y rheolau a'r gweithdrefnau a fydd yn cael eu dilyn cyn ac yn ystod y diwrnod pleidleisio.

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Refferendwm ar y system bleidleisio ar
gyfer etholiadau Seneddol y DU 2011

Mawrth 2011

Owain Roberts

Rhif dogfen: 11/019

Gwasanaeth
Ymchwil yr
Aelodau



Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cefndir	2
2.1.	Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011	2
3.	Cynnal a gweinyddu'r refferendwm	4
3.1.	Cyfuno etholiadau	4
3.2.	Etholaethau'r refferendwm	5
3.3.	Cyfnod y refferendwm	5
3.4.	Dyddiad ac amser pleidlais y refferendwm	6
3.5.	Cwestiwn y refferendwm	6
3.6.	Swyddogion Cyfrif	6
3.7.	Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol.....	7
3.8.	Prif Swyddogion Cyfrif	7
3.9.	Ymgyrchwyr cofrestredig.....	7
3.10.	Prif grwpiau ymgyrchu.....	8
3.11.	Asiantwyr Refferendwm ac Asiantwyr Pleidleisio a Chyfrif.....	9
3.12.	Cyfyngiadau ar gyllid ymgyrch	10
4.	Pwy sy'n pleidleisio?	11
4.1.	Hawliau pleidleisio i garcharorion	11
4.2.	Cofrestru	13
4.3.	Pleidleisio drwy ddirprwy a thrwy'r post.....	13
4.4.	Materion ieithyddol	14
4.5.	Hyrwyddo	14
4.6.	Cyhoeddusrwydd	16
5.	Diwrnod y bleidlais	17
5.1.	Pwy all fynd i'r orsaf bleidleisio?	17
5.2.	Arolygon barn wrth i bobl adael y gorsafoddedd pleidleisio	17
5.3.	Amser y cyfrif.....	17
5.4.	Ail gyfrif.....	18
5.5.	Cyhoeddi'r canlyniadau	18
5.6.	Darpariaethau cychwyn	19
A.	Atodiad: Prif Ddyddiadau Ymgyrch y Refferendwm	20

Refferendwm ar y system bleidleisio ar gyfer etholiadau Seneddol y DU

1. Cyflwyniad

Cynhelir refferendwm ar newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol i Senedd y DU (“y refferendwm”) ar 5 Mai 2011, yr un diwrnod ag etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.¹ Bydd y refferendwm yn rhoi cyfle i bleidleiswyr benderfynu a ddylid mabwysiadu system etholiadol y “Bleidlais Amgen” ar gyfer holl Etholiadau Cyffredinol y Deyrnas Unedig yn y dyfodol ynteu a ddylid cadw system bresennol “Y Cyntaf i’r Felin”. Hwn fydd yr ail refferendwm i’w gynnal yng Nghymru yn 2011, yn dilyn y refferendwm ar roi mwy o bwerau i’r Cynulliad Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011.²

Mae’r refferendwm yn elfen hollbwysig o gytundeb clymblaid y Ceidwadwyr a’r Democratiaid Rhyddfrydol, a gytunwyd gan y ddwy blaid yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ar 6 Mai 2010.

Mae’r papur hwn yn rhoi cyflwyniad i’r refferendwm a throsolwg ohono. Mae’n egluro’r cyd-destun cyfreithiol a ddarparwyd gan *Ddeddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011*³ (“PVSCA 2011”) a *Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000*⁴ (“PPERA 2000”) ac mae’n cynnwys gwybodaeth am y rheolau a’r gweithdrefnau a fydd yn cael eu dilyn cyn ac yn ystod y diwrnod pleidleisio.

Nid yw’r papur hwn yn ceisio crynhoi’r materion sydd dan sylw yn y refferendwm ac nid yw’n darparu gwybodaeth am y grwpiau sy’n ymgyrchu ar gyfer y refferendwm.

¹ Ceir rhagor o wybodaeth am Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011 mewn papur ymchwil a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

² Ceir rhagor o wybodaeth am [y refferendwm ar roi mwy o bwerau i’r Cynulliad Cenedlaethol](#) mewn papur ymchwil a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

³ [Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 \(c.1\)](#)

⁴ [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholaethau a Refferenda 2000 \(c.41\)](#)

2. Cefndir

Mae'r refferendwm yn deillio o'r cytundeb clymblaid rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol a gyhoeddwyd yn dilyn Etholiad Cyffredinol y DU ar 6 Mai 2010. Roedd y ddogfen honno'n cynnwys yr ymrwymiad a ganlyn:

... bring forward a Referendum Bill on electoral reform, which includes provision for the introduction of the Alternative Vote in the event of a positive result in the referendum.⁵

Roedd yr ymrwymiad hwn yn gyfaddawd mawr i'r ddwy blaid ac mae'n agwedd ganolog o raglen lywodraethu'r glymblaid. Mae safiad hanesyddol prif bleidiau'r DU ar fater diwygio etholiadol yn cael ei grynhai orau gan yr Athro Robert Hazell:

The Conservatives are staunch supporters of First past the Post (FPTP) and see no need for change. The Liberal Democrats have long supported the Single Transferable Vote (STV), and will see AV as a very poor substitute, since it is not a proportional system. Hence the provision that after being whipped to support a referendum on AV in Parliament, the parties will be free to fight on opposing sides during the referendum campaign. Ironically the one party which does formally support a referendum on AV is the Labour party, although in practice the Labour party are divided on the issue.⁶

2.1. *Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011*

Cafodd cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer Mesur Seneddol yn darparu ar gyfer refferendwm ar newid y system bleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol y DU eu cynnwys yn Araith y Frenhines ar 25 Mai 2010. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd y *Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau* gan y Dirprwy Brif Weinidog, Nick Clegg AS, i Dŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2010.⁷ Roedd yn cynnwys dwy brif ddarpariaeth:

- Y cynhelid refferendwm ar 5 Mai 2011 i benderfynu a ddylid defnyddio'r Bleidlais Amgen yn lle system y Cyntaf i'r Felin fel y system etholiadol ar gyfer holl Etholiadau Cyffredinol y DU yn y dyfodol; ac
- Y dylid lleihau nifer yr etholaethau Seneddol o 650 i 600, a phennu'r nifer hwnnw, erbyn adeg Etholiad Cyffredinol nesaf y DU.

Er gwaethaf proses graffu faith yn Nhŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi, lle mynegwyd cryn wrthwynebiad i leihau nifer yr etholaethau, ychydig iawn o newidiadau a wnaethpwyd i brif ddarpariaethau'r Mesur Seneddol a chafodd y Ddeddf ddilynol Gydsyniad Brenhinol ar 16 Chwefror 2011.

⁵ [Llywodraeth y DU, *The Coalition: our programme for government*, Mai 2010, tudalen 26](#)

⁶ [Hazell, Robert \(2010\) *The Conservative-Liberal Democrat Agenda for Constitutional and Political Reform*, The Constitution Unit : Coleg Prifysgol Llundain, Mehefin 2010 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

⁷ Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r [Mesur Seneddol ynghylch Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau](#) [fel y'i cyflwynwyd] mewn papur ymchwil a baratowyd gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

O ganlyniad, mae PVSCA 2011, ynghyd â'r *Mesur Seneddol ynghylch Seneddau Cyfnod Penodol*⁸ sydd ar hyn o bryd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi, yn rhan allweddol o becyn Llywodraeth y DU ar gyfer diwygio seneddol a chyfansoddiadol.

⁸ [Mesur Seneddol ynghylch Seneddau Cyfnod Penodol](#)

3. Cynnal a gweinyddu'r refferendwm

Nodir y rheolau ynghylch cynnal a gweinyddu'r refferendwm mewn nifer o adrannau ac atodlenni i PVSCA 2011 yn ogystal â PPERA 2000.

Mae darpariaethau cyffredinol sy'n ymwneud â chynnal refferenda yn y DU wedi'u cynnwys yn Rhan 7 o PPERA 2000. Mae'r darpariaethau hyn yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn Etholiadol i:

- Wneud sylwadau ar eiriad cwestiwn y refferendwm;
- Cofrestru ymgyrchwyr;
- Rheoleiddio gwariant ar ymgyrchoedd a rhoddion iddynt;
- Dynodi prif grwpiau ymgyrchu;
- Sefydlu a gweinyddu'r grantiau i'r prif grwpiau ymgyrchu;
- Cyflwyno adroddiad ar sut y mae'r refferendwm yn cael ei weinyddu a'i gynnal; a
- Sicrhau cywirdeb cyffredinol y canlyniad.

3.1. *Cyfuno etholiadau*

Cynhelir y refferendwm ar 5 Mai 2011, yr un diwrnod ag etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon, awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon ac awdurdodau lleol amrywiol yn Lloegr.

Mae Adran 4(2) ynghyd ag Atodlen 6 i PVSCA 2011 yn caniatáu i'r ddau etholiad gael eu cynnal gyda'i gilydd ac mae'n nodi'r prosesau y mae angen eu dilyn cyn ac yn ystod yr etholiad ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys rheolau sy'n berthnasol wrth gyfrif pleidleisiau a chyhoeddi canlyniadau'r ddau etholiad.

Mae darpariaethau tebyg ar gyfer cyfuno etholiadau yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi'u cynnwys yn Atodlenni 5, 7 ac 8 i PVSCA 2011.

Er mwyn sicrhau dulliau cyson o gyflawni'r holl etholiadau a gynhelir ar 5 Mai 2011, mae *Grŵp Llywio Etholiadau a Refferenda'r Comisiwn Etholiadol* wedi bod yn cyfarfod yn fisol ers Medi 2010. Mewn datganiad a gyhoeddwyd ar ôl pasio PVSCA 2011 yn Chwefror 2011, dywedodd Jenny Watson, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol a'r Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm:

Our offices in Scotland, Wales, Northern Ireland and across England have been working with Regional Counting Officers to ensure that our instructions and guidance are understood and are being applied by Counting Officers and electoral administrators, as well as providing another opportunity for electoral administrators to feed back any concerns or comments they might have about the planning process.

We will continue to work with the hundreds of local Counting Officers across the UK, making sure that they have the plans in place to ensure voters have the best possible experience at the elections and referendum on 5 May.⁹

3.2. *Etholaethau'r refferendwm*

Mae Adran 7(2) o PVSCA 2011 yn nodi ardaloedd pleidleisio yn y DU ar gyfer y refferendwm fel a ganlyn:

- (a) a district in England for which there is a district council;.
- (b) a county in England in which there are no districts with councils;.
- (c) a London borough;.
- (d) the City of London (including the Inner and Middle Temples);.
- (e) the Isles of Scilly;.
- (f) a constituency for the National Assembly for Wales;.
- (g) a constituency for the Scottish Parliament;.
- (h) Northern Ireland.¹⁰

Bydd yr ardaloedd pleidleisio unigol hyn yng Nghymru, Lloegr a'r Alban wedyn yn ffurfio sail ar gyfer y deuddeg ardal ranbarthol, sy'n cael eu hamlinellu ym Mharagraff 3(2) o Atodlen 1 i PVSCA 2011:

East Midlands;
Eastern;
London;
North East;
North West;
South East;
South West;
West Midlands;
Yorkshire and the Humber;
Scotland; and
Wales.¹¹

Mae'r rhanbarthau ar gyfer Lloegr sydd wedi'u rhestru uchod yn cynnwys yr ardaloedd a nodwyd yn Atodlen 1 i *Ddeddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002*.¹² Bydd trefniadau gwahanol ar gyfer gweinyddu'r refferendwm yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.

3.3. *Cyfnod y refferendwm*

Mae paragraff 1 o Atodlen 1 i PVSCA 2011 yn nodi bod cyfnod y refferendwm yn dechrau ar y diwrnod y cafodd y Ddeddf Gydsyniad Brenhinol ac y bydd yn dod i ben ar y diwrnod pleidleisio. **Cafodd PVSCA 2011 Gydsyniad Brenhinol ar 16 Chwefror 2011 a chynhelir y refferendwm ar 5 Mai 2011. Yn ystod y cyfnod**

⁹ [Y Comisiwn Etholiadol, Statement by the Chair of the Electoral Commission and the Chief Counting Officer on the PVSC Act, Chwefror 2011 \[fel ar 25 Chwefror 2011\]](#)

¹⁰ [Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 \(c.1\), Adran 7](#)

¹¹ *Ibid*, Atodlen 1

¹² [Deddf Etholiadau Senedd Ewrop 2002 \(c.24\)](#)

hwn, mae rheolau sy'n ymwneud ag ymgyrchu, gwariant a rhoddion yn berthnasol.

3.4. Dyddiad ac amser pleidlais y refferendwm

Mae Adran 1(3) o PVSCA 2011 ynghyd â Pharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno yn nodi y **cynhelir y refferendwm ar 5 Mai 2011 ac y gellir pleidleisio rhwng 7am a 10pm.**

3.5. Cwestiwn y refferendwm

Mae Adran 1(7) o PVSCA 2011 yn nodi mai'r cwestiwn a fydd yn ymddangos ar bapur pleidleisio'r refferendwm fydd:

At present, the UK uses the 'first past the post' system to elect MPs to the House of Commons. Should the 'alternative vote' system be used instead?

Mae Adran 1(8) o PVSCA 2011 yn darparu fersiwn Cymraeg o'r cwestiwn a fydd yn ymddangos ochr yn ochr â'r cwestiwn Saesneg ar bapurau pleidleisio yng Nghymru:

Ar hyn o bryd, mae'r DU yn defnyddio'r system 'y cyntaf i'r felin' i ethol ASau i Dŷ'r Cyffredin. A ddylid defnyddio'r system 'pleidlais amgen' yn lle hynny?

3.6. Swyddogion Cyfrif

Mae Swyddogion Cyfrif yn gyfrifol am weinyddu'r broses bleidleisio ym mhob ardal leol ac mae ganddynt rôl debyg i Swyddog Canlyniadau mewn etholiad.

Mae Paragraff 5 o Atodlen 1 i PVSCA 2011 yn nodi bod Swyddog Cyfrif ar gyfer pob ardal bleidleisio unigol yn gyfrifol am:

- gynnal y bleidlais,
- argraffu'r papurau pleidleisio,
- anfon a derbyn papurau pleidleisio drwy'r post, ar gyfer pobl sydd â hawl i bleidleisio ar eu rhan eu hunain yn y refferendwm ac ar gyfer dirprwyon,
- cadarnhau'r datganiadau a wnaethpwyd dan reol 38(6) o reolau'r refferendwm (cyfrifon papurau pleidleisio), a
- cyfri'r pleidleisiau a fwriwyd.

Mae Paragraff 14 o Atodlen 2 i PVSCA 2011 hefyd yn caniatáu i Swyddogion Cyfrif benodi a thalu i Lywydd fynd i bob gorsaf bleidleisio a phenodi faint bynnag o glercod sydd eu hangen i ddibenion y refferendwm.

Mae Paragraff 2(4) o Atodlen 1 i PVSCA 2011 yn nodi mai'r Swyddog Cyfrif ar gyfer ardal bleidleisio yng Nghymru yn y refferendwm fydd yr un person â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol, a gynhelir yr un diwrnod.

3.7. *Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol*

Mae Paragraff 3 o Atodlen 2 i PVSCA 2011 yn nodi y gall y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm benodi 12 Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Mae Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol yn gyfrifol am oruchwylio'r broses gyfrif yn yr ardaloedd pleidleisio yn eu rhanbarthau. Mae Paragraff 6(3) o Atodlen 1 i PVSCA 2011 hefyd yn caniatáu i Swyddog Rhanbarthol benodi faint bynnag o glercod sydd eu hangen yn ei farn ef neu hi i gynorthwyo i gyflawni swyddogaethau'r swyddog.

3.8. *Prif Swyddogion Cyfrif*

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm yn gyfrifol am gyhoeddi'r canlyniad cenedlaethol pan fydd y cyfrif wedi'i gwblhau ym mhob rhanbarth.

Mae'r cyfrifoldebau ychwanegol yn cynnwys sicrhau:

- Bod y bleidlais yn cael ei chynnal yn briodol; a
- Bod y canlyniad terfynol yn gywir.

Gall y Prif Swyddog Cyfrif hefyd benodi Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol (gweler paragraff 3.7 uchod) a dirprwyon i gyflawni unrhyw rai o swyddogaethau'r swyddog neu ei holl swyddogaethau.

Y Prif Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm fydd **Jenny Watson, Cadeirydd y Comisiwn Etholiadol**. Penodwyd **Max Caller, Comisiynydd Etholiadol**, yn Ddirprwy Brif Swyddog Cyfrif.

3.9. *Ymgyrchwyr cofrestredig*

Dan ddarpariaethau a amlinellwyd yn PPERA 2000, rhaid i'r rhai hynny a fydd yn gwario mwy na £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol i fod yn ymgyrchydd cofrestredig (neu "gyfranogwr cymeradwy"). Yn ôl y Comisiwn Etholiadol, mae manteision gwneud hyn yn cynnwys:

- Yr hawl i wario mwy na £10,000;
- Yr hawl i ddefnyddio'r gofrestr etholwyr i gynorthwyo pob ymgyrch; a
- Yr hawl i gynrychiolwyr fynd i sesiynau agor pleidleisiau a fwriwyd drwy'r post, gorsafoedd pleidleisio a chyfrifiad y pleidleisiau.¹³

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn agor cofrestrau ar gyfer darpar ymgyrchwyr ar ddechrau pob cyfnod refferendwm. Dim ond y mathau canlynol o unigolion neu sefydliadau all gofrestru fel ymgyrchwyr:

¹³ [Y Comisiwn Etholiadol, Trosolwg Testun: Trosolwg o ymgyrchoedd refferendwm, tudalen 6 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

- Unigolyn sy'n byw yn y DU neu sydd wedi'i gofrestru ar gofrestr etholwyr yn y DU;
- Plaid wleidyddol sydd wedi'i chofrestru yn y DU;
- Cwmni wedi'i gofrestru yn y DU, sydd wedi'i gorffori yn yr UE ac sy'n gweithredu ei fusnes yn y DU;
- Undeb llafur sydd wedi'i gofrestru yn y DU;
- Cymdeithas adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU;
- Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig wedi'i chofrestru yn y DU sy'n gweithredu ei busnes yn y DU;
- Cymdeithas lesiant, ddiwydiannol, ddarbodus neu adeiladu sydd wedi'i chofrestru yn y DU; a
- Cymdeithas anghorfforedig wedi'i lleoli yn y DU sy'n gwneud y rhan fwyaf o'i busnes neu weithgareddau eraill yn y DU.¹⁴

3.10. Prif grwpiau ymgyrchu

Mae PPERA 2000 hefyd yn nodi y gall grwpiau ymgyrchu cofrestredig wneud cais i'r Comisiwn Etholiadol i ddod yn un o'r prif grwpiau ymgyrchu ("corff dynodedig"). Yn ôl canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar y broses ddynodi:

Mae un grŵp ymgyrchu (a elwir hefyd yn gorff dynodedig) yn cynrychioli pob ochr y drafodaeth refferendwm. Maen nhw'n gweithredu fel prif grŵp ymgyrchu ar ran y rhai hynny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

Mae prif grwpiau ymgyrchu yn cael rhai buddion penodol sydd uwchben ymgyrchwyr cofrestredig eraill. Er enghraifft, mae ganddyn nhw derfyn gwariant sy'n uwch na'r ymgyrchwyr cofrestredig eraill, a maen nhw'n derbyn grant oddi wrthyn ni.¹⁵

Mae'r manteision ar gyfer y prif grŵp ymgyrchu'n cynnwys:

- Terfyn gwariant uwch nag ymgyrchwyr cofrestredig eraill;
- Yr hawl i ddsbarthu gwybodaeth am ddim i etholwyr;
- Yr hawl i wneud darllediadau fel rhan o ymgyrch y refferendwm;
- Yr hawl i ddefnyddio rhai ystafelloedd cyhoeddus am ddim; a
- Grant a ariennir yn gyhoeddus a osodir gan y Comisiwn Etholiadol.¹⁶

Yn ôl y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol, bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi i'r wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeiswyr ar gyfer cael statws y brif ymgyrch mewn perthynas â:

¹⁴ Ibid

¹⁵ [Y Comisiwn Etholiadol, Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau: Y broses o ddynodi, tudalen 3 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

¹⁶ Ibid, tudalen 8

- **Chefnogaeth i'r cais:** I ba raddau mae'r grŵp yn cynrychioli amrywiaeth o ymgyrchwyr sy'n ymgyrchu o blaid y canlyniad a gefnogir;
- **Cynrychioli ymgyrchwyr eraill:** I ba raddau y bydd grŵp yn ceisio ymgysylltu â grwpiau eraill sy'n ymgyrchu o blaid y canlyniad a gefnogir;
- **Capasiti ymgyrchu:** Gallu grŵp i gyrraedd cynifer o bleidleiswyr â phosibl ledled ardal y refferendwm er mwyn cynrychioli'r rheini sy'n ymgyrchu dros yr un canlyniad; a
- **Capasiti trefniadol:** A oes gan grŵp y gallu i gynrychioli eraill sy'n ymgyrchu o blaid y canlyniad a gefnogir mewn modd digonol.¹⁷

Unwaith y bydd ceisiadau'n dod i law, rhaid i'r Comisiwn Etholiadol ddynodi'r ymgeiswyr sy'n gallu "cynrychioli'r rhai hynny sy'n ymgyrchu dros bob canlyniad yn iawn".¹⁸ **Os yw'r Comisiwn Etholiadol o'r farn nad oes yr un o'r ymgeiswyr yn cynrychioli'r rhai hynny sy'n cefnogi canlyniad yn iawn, yna ni all "ddynodi prif grŵp ymgyrchu ar y naill ochr na'r llall".¹⁹**

Y dyddiad cau ar gyfer y broses o wneud cais i fod yn un o'r prif grwpiau ymgyrchu oedd **15 Mawrth 2011**. Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol wneud penderfyniad ynghylch dynodi prif ymgyrchwyr erbyn **29 Mawrth 2011**.

3.11. Asiantwyr Refferendwm ac Asiantwyr Pleidleisio a Chyfrif

Mae Paragraff 11 o Atodlen 2 i PVSCA 2011 yn caniatáu i **ymgyrchwyr cofrestredig benodi Asiant Refferendwm ar gyfer pob ardal leol. Mae Asiant Refferendwm yn gyfrifol am benodi Asiantwyr Pleidleisio ac Asiantwyr Cyfrif yn eu hardal** ar gyfer y swyddogaethau a ganlyn:

- Arsylwi ar y broses gyfrif a gwneud yn siŵr bod y broses yn drefnus ac yn gywir;
- Tynnu sylw staff cyfrif at unrhyw bapurau pleidleisio amheus;
- Os yw'n anghytuno â phenderfyniad gan y Swyddog Cyfrif i wrthod papur pleidleisio, gall yr asiant cyfrif ofyn i'r Swyddog Cyfrif roi marc arno; ac
- Os bydd cyfrif yn cael ei ohirio am unrhyw reswm, gall asiantwyr cyfrif ychwanegu eu seliau pan fydd y Swyddog Cyfrif yn selio'r blychau pleidleisio a'r amlenni.²⁰

Rhaid i hysbysiad ynghylch Asiantwyr Refferendwm a benodwyd gan ymgyrchydd cofrestredig gael ei gyflwyno i'r Swyddog Cyfrif ar gyfer eu hardal bleidleisio erbyn canol dydd ar 7 Ebrill 2011. Rhaid i geisiadau gan yr Asiantwyr Refferendwm i benodi Asiantwyr Cyfrif a Phleidleisio gael eu cyflwyno'n

¹⁷ [Y Comisiwn Etholiadol, Refferendwm ar y System Bleidleisio Seneddol 2011: Cais ar gyfer statws prif grŵp ymgyrchu, tudalennau 5-6 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

¹⁸ [Y Comisiwn Etholiadol, Y Broses o Ddynodi, tudalen 3 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

¹⁹ Ibid

²⁰ [Y Comisiwn Etholiadol, Refferendwm ar y System Bleidleisio Seneddol yn y DU, tudalen 8 \[fel ar 25 Chwefror 2011\]](#)

ysgrifenedig i'r Swyddog Cyfrif ar gyfer eu hardal bleidleisio cyn 26 Ebrill 2011 fan bellaf.²¹

3.12. Cyfyngiadau ar gyllid ymgyrch

Mae PVSCA 2011 yn nodi mai £5 miliwn yw'r uchafswm gwariant ar gyfer prif grŵp ymgyrchu dynodedig.²² Yn ychwanegol at hyn, mae grant o hyd at £380,000 ar gael i'w ddefnyddio ar gyfer costau seilwaith (e.e. swyddfeydd, staff ac ati), ond nid ar gyfer costau ymgyrchu.²³

Mae PVSCA 2011 hefyd yn nodi'r cyfyngiadau sy'n gymwys i bleidiau gwleidyddol cofrestredig ar sail eu cyfran o'r bleidlais yn Etholiad Cyffredinol diwethaf y DU ym Mai 2010. Mae'r ffigurau hyn wedi eu cynnwys isod:

- Gall y Blaid Geidwadol wario hyd at £5 miliwn;
- Gall y Blaid Lafur wario hyd at £4 miliwn;
- Gall y Democratiaid Rhyddfrydol wario hyd at £4 miliwn;
- Gall unrhyw blaid arall wario hyd at £500,000.²⁴

Gall ymgyrchwyr nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol wario hyd at £10,000, ond rhaid iddynt gofrestru os ydynt yn bwriadu gwario, neu os ydynt yn gwario, mwy na £10,000 yn ystod cyfnod y refferendwm. Mae'r rheini sy'n ymgyrchwyr cofrestredig, ac nad ydynt yn un o'r prif bleidiau gwleidyddol a restrir uchod, yn cael eu cyfyngu i wario hyd at £500,000.²⁵

Mae rhagor o wybodaeth am y rheolau sy'n ymwneud â gwario ar ymgyrchu yn ystod y refferendwm a rhoddion ymgyrchu ar gael ar dudalen [Siart Cyfarwyddyd Refferendwm System Bleidleisio Senedd y Deyrnas Unedig](#) ar wefan y Comisiwn Etholiadol.

²¹ [Y Comisiwn Etholiadol, Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau: Y Cyfrif, Chwefror 2011, tudalen 5 \[fel ar 1 Mawrth 2011\]](#)

²² [Y Comisiwn Etholiadol, Refferendwm ar y System Bleidleisio Seneddol yn y DU, tudalen 7 \[fel ar 25 Chwefror 2011\]](#)

²³ Ibid

²⁴ Ibid

²⁵ Ibid

4. Pwy sy'n pleidleisio?

Mae Adran 2(1)(a) o PVSCA 2011 yn nodi mai'r rhai sydd â hawl i bleidleisio yn y refferendwm yw'r rhai fyddai â hawl, ar ddyddiad y refferendwm, i bleidleisio yn etholiadau Seneddol y DU.

Yn ôl y Comisiwn Etholiadol, **er mwyn pleidleisio mewn Etholiad Cyffredinol yn y DU rhaid i berson fod wedi'i gofrestru i bleidleisio a rhaid iddo hefyd fod:**

- Yn 18 oed neu hŷn ar y diwrnod pleidleisio;
- Yn byw yn y DU;
- Yn ddinesydd Prydeinig, yn ddinesydd cymwys o'r Gymanwlad neu'n ddinesydd o Weriniaeth Iwerddon; ac
- Yn rhydd o unrhyw anghymhwyster cyfreithiol i bleidleisio.²⁶

Ni all y canlynol bleidleisio mewn etholiad cyffredinol yn y DU ac, o ganlyniad, nid ydynt yn gymwys i bleidleisio yn y refferendwm:

- Aelodau o Dŷ'r Arglwyddi (er y gallant bleidleisio mewn etholiadau i awdurdodau lleol, deddfwriaethau datganoledig a Senedd Ewrop);
- Dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU (er y gallant bleidleisio mewn etholiadau i awdurdodau lleol, deddfwriaethau datganoledig a Senedd Ewrop);
- Unrhyw un ar wahân i ddinasyddion Prydeinig, dinasyddion Gwyddelig a dinasyddion cymwys o'r Gymanwlad;
- Pobl sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o drosedd ac sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn unol â'u dedfrydau (er y gall carcharorion ar remand, carcharorion sydd heb eu dedfrydu a charcharorion sifil bleidleisio os ydynt ar y gofrestr etholwyr). Ceir rhagor o wybodaeth am ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop ar hawliau pleidleisio carcharorion yn ddiweddar yn adran 4.1 isod; ac
- Unrhyw un a gafwyd yn euog yn ystod y pum mlynedd flaenorol o arferion llwgr neu anghyfreithlon mewn cysylltiad ag etholiad.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y bydd **dinasyddion yr UE sy'n byw yn y DU yn gymwys i bleidleisio yn yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Mai 2011, ond na fyddant yn gymwys i bleidleisio yn y refferendwm a gynhelir yr un diwrnod.**

4.1. *Hawliau pleidleisio i garcharorion*

Ym mis Hydref 2005, dyfarnodd Llys Hawliau Dynol Ewrop yn achos John Hirst fod y gwaharddiad a oedd yn bodoli ar allu carcharorion i bleidleisio yn groes i Erthygl 3, Protocol 1 o'r *Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol* – yr hawl i etholiadau

²⁶ [Gwefan y Comisiwn Etholiadol, Who is eligible to vote at a UK General Election? \[fel ar 1 Mawrth 2011\]](#)

rhydd a theg. Gan nad oedd y penderfyniad hwn wedi cael ei weithredu gan Lywodraeth y DU ers 2005, cyhoeddodd Llys Hawliau Dynol Ewrop ddyfarniad arall ym mis Tachwedd 2010 a oedd yn datgan y dylai'r penderfyniad gael ei weithredu cyn mis Awst 2011.

Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd mewn ymateb i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop ar 20 Rhagfyr 2010, dywedodd y Gwir Anrhydeddus Mark Harper AS, yr Ysgrifennydd Seneddol dros Swyddfa'r Cabinet:

... this is not a choice: it is a legal obligation ... we will act to implement the judgment of the European Court of Human Rights ...

The Government will therefore bring forward legislation providing that the blanket ban in the existing law will be replaced. Offenders sentenced to a custodial sentence of four years or more will lose the right to vote in all circumstances, which reflects the Government's clear view that more serious offenders should not retain the right to vote. Offenders sentenced to a custodial sentence of less than four years will retain the right to vote, but legislation will provide that the sentencing judge will be able to remove that right if they consider that appropriate. Four years has in the past been regarded as the distinction between short and long-term prisoners, and the Government consider that permitting prisoners sentenced to less than four years' imprisonment to vote is sufficient to comply with the judgment.

The right to vote will be restricted to UK Westminster Parliamentary and European Parliament elections only, and not in other elections or referendums [MRS emphasis].

That is the minimum currently required by the law (a case considering whether article 3, protocol 1 applies to elections to the Northern Ireland Assembly is currently before the European Court of Human Rights: the Government's position is that they do not).²⁷

Mewn gwrthgyferbyniad i'r farn hon fodd bynnag, dywedodd Aidan O'Neill QC, bargyfreithiwr sy'n arbenigo mewn hawliau carcharorion, wrth Bwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin y byddai etholiadau i Senedd yr Alban a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal ag etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop, hefyd yn ddarostyngedig i ddyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop:

There are elections coming up on 5 May 2011 in Scotland and Wales. Those elections on the current franchise are going to be Convention-incompatible again; so there is an urgency about that. There is an added urgency to that because elections to the Scottish and Welsh parliaments are covered by not just European human rights law but European Union law.²⁸

Cadarnhaodd datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet yn Rhagfyr 2010 y byddai deddfwriaeth ar hawliau pleidleisio carcharorion yn cael ei chyflwyno gan Lywodraeth y DU rywbryd yn ystod 2011 ar gyfer dadl yn Senedd y DU.²⁹ Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyflwyno deddfwriaeth o'r fath eto, ond

²⁷ [Dadl Tŷ'r Cyffredin 20 Rhagfyr 2010 c150-1WS \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

²⁸ [Dadl Pwyllgor Diwygio Gwleidyddol a Chyfansoddiadol Tŷ'r Cyffredin 1 Chwefror 2011 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

²⁹ [Datganiad i'r Wasg gan Swyddfa'r Cabinet, *Government approach to prisoner voting rights*, 17 Rhagfyr 2010 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

cafodd cynnig yn gwrthwynebu dyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop ei gefnogi gan fwyafrif llethol o'r Aelodau Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Chwefror 2011.³⁰

Ar hyn o bryd felly, bydd pobl sydd wedi cael eu dyfarnu'n euog o drosedd yn dal yn anghymwys i bleidleisio yn y refferendwm ar 5 Mai 2011.

4.2. Cofrestru

Cofrestru etholiadol yw'r broses o gasglu a chadw'r gofrestr etholwyr. Mae Adran 8 o *Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*³¹ yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gael eu penodi er mwyn cofrestru etholwyr. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol baratoi a chyhoeddi cofrestr o'r etholwyr ar gyfer eu hardal bob blwyddyn a'i diweddarau drwy gydol y flwyddyn. Mae ganddynt ddyletswydd statudol i gynnwys enwau pawb y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn gymwys, gan gymryd camau rhesymol i gasglu'r wybodaeth sydd ei hangen.

Mae dwy ffordd o gofrestru i bleidleisio. Y ffordd gyntaf yw'r "Canfasiad Blynnyddol" pan gaiff ffurflen ei hanfon i bob tŷ er mwyn i'r preswylwyr gofrestru rhwng mis Medi a mis Tachwedd bob blwyddyn. Yr ail yw'r broses o gofrestru graddol lle gellir cofrestru ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gan fod y gofrestr yn cael ei diweddarau bob mis rhwng mis Rhagfyr a mis Medi.

Er nad yw cofrestru'n orfodol, mae gan Swyddog Cofrestru Etholiadol hawl i ofyn am wybodaeth er mwyn diweddarau'r gofrestr etholwyr. Pennwyd cosb am beidio â llenwi a dychwelyd y ffurflen gofrestru etholwyr neu am roi gwybodaeth anghywir am y tro cyntaf ym 1918 ac estynnwyd hynny i gynnwys cofrestru graddol yn 2006. Y gosb bresennol am y trosedd hwn yw dirwy heb fod yn fwy na £1,000.

Nid oes angen cofrestru'n benodol ar gyfer y refferendwm; os yw pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr yna bydd yn gallu pleidleisio. Fodd bynnag, os nad yw pleidleisiwr ar y gofrestr etholwyr, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau er mwyn gallu pleidleisio yn y refferendwm yw hanner nos ar 14 Ebrill 2011.³² Os yw pleidleisiwr wedi symud tŷ neu newid ei enw yn ddiweddar, bydd angen iddo ailgofrestru er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio.

4.3. Pleidleisio drwy ddirprwy a thrwy'r post

Gall y rhai hynny nad ydynt am fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio wneud cais ymlaen llaw naill ai i bleidleisio drwy'r post neu i drefnu i rywun arall bleidleisio ar eu rhan (pleidleisio drwy ddirprwy). Gall hyn gynorthwyo pleidleiswyr anabl ac oedrannus i gymryd rhan yn y broses etholiadol.

³⁰ [Dadl Tŷ'r Cyffredin 10 Chwefror 2011 c493 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

³¹ [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 \(c.2\)](#)

³² [Y Comisiwn Etholiadol, Refferendwm ar y System Bleidleisio Seneddol yn y DU 2011, tudalen 14 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

Cyflwynwyd yr hawl i bob pleidleisiwr ddewis pleidleisio drwy'r post ar gais yn *Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000*,³³ a chryfhawyd y darpariaethau diogelwch mewn perthynas â phleidleisio drwy'r post yn dilyn hynny yn *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2006*³⁴ a *Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006*.³⁵

Yn Etholiad Cyffredinol y DU ar 6 Mai 2010, anfonwyd pleidlais drwy'r post at 15 y cant o'r etholwyr cymwys a dychwelwyd 83 y cant ohonynt.³⁶ Nid oes gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd ynglŷn â chanran yr etholwyr cymwys a wnaeth gais ac a dychwelodd bleidlais drwy'r post ar gyfer y refferendwm ar fwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 3 Mawrth 2011.

4.4. *Materion ieithyddol*

Mae gallu ieithyddol yn ffactor pwysig o ran caniatáu i unigolion ddefnyddio'r broses etholiadol, p'un ai mewn perthynas â chofrestru, fel y trafodwyd uchod, neu'r weithred o bleidleisio, o ran deall y papur pleidleisio neu allu cael gafael ar gyngor. Ar hyn o bryd, mae'r prif ffurflenni statudol, fel y papurau pleidleisio a chofrestru, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru.

Mae Paragraff 12(2) o Atodlen 2 i PVSCA 2011 yn nodi:

The counting officer must also issue to those entitled to vote by post whatever information the officer thinks appropriate about how to obtain—

- (a) translations into languages other than English of any directions to, or guidance for, voters sent with the ballot paper;
- (b) a translation into Braille of those directions or guidance;
- (c) graphical representations of those directions or guidance;
- (d) those directions or guidance in any other form (including any audible form).³⁷

Mae gwefan y Comisiwn Etholiadol, [Fy Mhleidlais I](#), hefyd yn darparu gwybodaeth mewn Arabeg, Bengaleg, Tsieinëeg (traddodiadol), Gujarati, Hindi, Latfieg, Lithwaneg, Pwyleg, Portiwgaleg, Punjabi ac Urdu ac mae'n nodi bod gwybodaeth mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

4.5. *Hyrwyddo*

Mae Paragraff 9 o Atodlen 1 i PVSCA 2011 yn nodi bod yn rhaid i'r Comisiwn Etholiadol gymryd pa gamau bynnag sy'n briodol yn ei farn ef i hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r refferendwm a sut i bleidleisio ynddo. O dan

³³ [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 2000 \(c.2\)](#)

³⁴ [Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl \(Cymru a Lloegr\) \(Diwygio\) \(Rhif 2\) 2006 \(SI/2910\)](#)

³⁵ [Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 \(c.22\)](#)

³⁶ [Y Comisiwn Etholiadol, Report on the administration of the 2010 UK general election, Gorffennaf 2010, paragraff 5.5 \[fel ar 2 Mawrth 2011\]](#)

³⁷ [Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 \(c.2\), Atodlen 2](#)

Baragraff 10 o Atodlen 1 i PVSCA 2011, gall y Prif Swyddog Cyfrif hefyd gymryd pa gamau bynnag sy'n briodol yn ei barn hi i annog pobl i gymryd rhan yn y refferendwm.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi amlinellu beth fydd ei weithgaredd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch refferenda yn ei brif bapur sy'n amlinellu ei rôl mewn perthynas â chynnal refferenda. Ceir crynodeb isod:

- Bydd y Comisiwn Etholiadol yn rhoi ystyriaeth gadarnhaol i weithgaredd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd;
- Bydd y Comisiwn Etholiadol yn canolbwyntio ar roi gwybodaeth i'r pleidleiswyr a sicrhau bod pobl wedi'u cofrestru i bleidleisio;
- Llyfryn gwybodaeth ar gyfer pleidleiswyr ar aelwydydd fydd yr ohebiaeth graidd (cyhyd ag y bydd yn cael ei ddsbarthu cyn i'r pleidleisiau drwy'r post gyrraedd); a
- Cytunir ar raddau gweithgaredd y Comisiwn Etholiadol ar sail achosion unigol, gan gynnwys darparu gwybodaeth am ystyr pleidlais o blaid ac yn erbyn os na fydd y Comisiwn yn gallu enwebu prif grŵp ymgyrchu. Bydd hyn yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, fel lefel yr ymgyrchu sydd ar waith a faint o bleidleiswyr sydd eisoes yn gwybod am bwnc y refferendwm.³⁸

Mae Paragraff 5 o Atodlen 2 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*³⁹ ("Deddf 2006") hefyd yn caniatáu i Gomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a'r system bresennol o lywodraethu datganoledig yng Nghymru, neu unrhyw system yn y dyfodol. Mae Paragraff 6 o Atodlen 2 i *Ddeddf 2006* hefyd yn nodi y gall Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol roi cymorth ariannol i'r Comisiwn Etholiadol i'r diben o'i alluogi i gyflawni ei swyddogaethau dan Adran 13(1) o PPERA 2000, sy'n ymwneud ag addysg am wasanaethau etholiadol a democrataidd.

Lansiodd y Cynulliad Cenedlaethol ei ymgyrch [Pleidleisiwch 2011](#) ar 10 Ionawr 2011. Diben yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ac annog pobl i bleidleisio yn yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol a'r refferendwm ar newid y system bleidleisio i Senedd y DU. Roedd yr ymgyrch hefyd yn annog pobl i bleidleisio yn y refferendwm ar fwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol, a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2011.

³⁸ [Y Comisiwn Etholiadol Key principles for Referendums, tudalen 3 \[fel ar 6 Rhagfyr 2010\]](#)

³⁹ [Deddf Llywodraeth Cymru 2006 \(c.32\)](#)

4.6. Cyhoeddusrwydd

Mae Adran 125 o PPERA 2000 yn cyfyngu ar Lywodraeth Cymru a chyrff eraill a gefnogir gan arian cyhoeddus (gan gynnwys Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol) fel na allant gyhoeddi unrhyw ddeunydd sy'n gwneud yr hyn a ddisgrifir isod:

- (a) provides general information about a referendum to which this Part applies;
- (b) deals with any of the issues raised by any question on which such a referendum is being held;
- (c) puts any arguments for or against any particular answer to any such question; or
- (d) is designed to encourage voting at such a referendum.⁴⁰

Gwaherddir cyhoeddi gwybodaeth o'r fath yn ystod y 28 diwrnod cyn y bleidlais. Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol, o dan y Ddeddf, i ddeunydd y mae aelod o'r cyhoedd yn gwneud cais penodol amdano nac i wybodaeth ffeithiol yn ymwneud â chynnal yr etholiad neu gyhoeddi hysbysiadau i'r wasg. Mae'r BBC ac S4C wedi'u heithrio o'r cyfyngiad, fel y mae'r Comisiwn Etholiadol ei hun.⁴¹

⁴⁰ [Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 \(c.41\), adran 125](#)

⁴¹ [Y Comisiwn Etholiadol, *Referendums Factsheet*, Tachwedd 2009, tudalen 2 \[fel ar 13 Ionawr 2011\]](#)

5. Diwrnod y bleidlais

Diwrnod pleidlais y refferendwm yw dydd Iau 5 Mai 2011 a gellir pleidleisio rhwng 7am a 10pm.

5.1. *Pwy all fynd i'r orsaf bleidleisio?*

Mae Atodlen 2 i PVSCA 2011 yn nodi mai dim ond y canlynol all fynd i'r orsaf bleidleisio ar ddiwrnod y bleidlais:

- Pleidleiswyr;
- Personau o dan 18 oed sy'n mynd gyda'r pleidleiswyr i'r orsaf bleidleisio;
- Y Prif Swyddog Cyfrif, y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol (yn achos gorsaf bleidleisio mewn rhanbarth y penodwyd Swyddog Cyfrif Rhanbarthol ar ei gyfer) a'r Swyddog Cyfrif;
- Asiantwyr y Refferendwm;
- Yr Asiantwyr Pleidleisio a benodwyd i fynd i'r orsaf bleidleisio;
- Y Clercod a benodwyd i fynd i'r orsaf bleidleisio;
- Personau y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol yn rhinwedd adrannau 6A i 6D o Ddeddf 2000;
- Y cwnstabiliaid sydd ar ddyletswydd; a
- Cymdeithion pleidleiswyr ag anableddau sy'n mynd i'r orsaf bleidleisio.

5.2. *Arolwg barn wrth i bobl adael y gorsafydd pleidleisio*

Mae Adran 66A o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983, fel y'i haddaswyd gan Baragraff 1 o Atodlen 4 i PVSCA 2011, yn gwahardd cyhoeddi canlyniadau'r arolygon barn a gynhelir wrth i bobl adael y gorsafydd pleidleisio cyn i'r brif bleidlais ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys:

- (a) any statement relating to the way in which voters have voted at the referendum where that statement is (or might reasonably be taken to be) based on information given by voters after they have voted, or
- (b) any forecast as to the result of the referendum which is (or might reasonably be taken to be) based on information so given.⁴²

5.3. *Amser y cyfrif*

Mae'r Prif Swyddog Cyfrif wedi cyhoeddi bod yn rhaid i'r gwaith o **gadarnhau nifer y pleidleisiau a fwriwyd gael ei gwblhau erbyn 1pm ddydd Gwener 6 Mai**

⁴² [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 \(c.2\), Adran 66A \[fel y'i diwygiwyd gan Baragraff 1 o Atodlen 4 i Ddeddf PVSC\]](#)

2011,⁴³ ac y dechreuir cyfri'r pleidleisiau yn y refferendwm am 4pm dydd Gwener 6 Mai 2011.⁴⁴

Mae hyn er mwyn sicrhau bod y pleidleisiau ar gyfer etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon, awdurdodau lleol yng Ngogledd Iwerddon a rhai awdurdodau lleol yn Lloegr, yn cael eu cyfrif yn gyntaf.⁴⁵

5.4. *Ail gyfrif*

Mae Paragraff 41 o Atodlen 2 i PVSCA 2011 yn caniatáu i **Asiantwyr Refferendwm neu Asiantwyr Cyfrif sy'n bresennol pan orffennir cyfrif pleidleisiau yn eu hardal bleidleisio ofyn i'r Swyddog Cyfrif ailgyfrif y pleidleisiau**. Fodd bynnag, gall y Swyddog Cyfrif wrthod cais o'r fath os yw'n credu ei fod yn afresymol.

Gall Swyddogion Cyfrif Rhanbarthol hefyd ofyn i Swyddog Cyfrif ailgyfrif y pleidleisiau ar gyfer ardal benodol os oes ganddynt le i amau cywirdeb y cyfanswm.⁴⁶

5.5. *Cyhoeddi'r canlyniadau*

Pan fydd Swyddog Cyfrif wedi cadarnhau cyfanswm y papurau pleidleisio a gyfrifwyd a nifer y pleidleisiau a fwriwyd o blaid pob ateb i gwestiwn a ofynnwyd yn y refferendwm yn eu hardal bleidleisio, mae paragraff 45 o Atodlen 2 i PVSCA 2011 yn nodi bod yn rhaid iddo ef neu hi roi'r ffigurau hynny i'r Swyddog Cyfrif Rhanbarthol perthnasol ar unwaith.

Cyn gynted ag y darperir y ffigurau hyn ar gyfer ardal bleidleisio, gall y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol wedyn awdurdodi'r Swyddog Cyfrif i gyhoeddi'r manylion hynny ar lefel leol. Cyhoeddir cyfanswm y cyfrif rhanbarthol pan fydd cyfrif pob ardal bleidleisio yn y rhanbarth hwnnw wedi cael ei gwblhau a'i gyhoeddi gan y Swyddog Cyfrif a'i gadarnhau gan y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol. **Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn cyhoeddi canlyniad terfynol y refferendwm ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd pan fydd cyfansymiau'r cyfrifon rhanbarthol a chyfrifon Gogledd Iwerddon i gyd wedi cael eu cadarnhau a'u cyhoeddi.**

Yn ychwanegol at hyn, ar ôl cyhoeddi canlyniad y refferendwm, mae **paragraff 9 o Atodlen 2 i PVSCA 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Etholiadol**

⁴³ [Y Comisiwn Etholiadol, Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau: Y Cyfrif, Chwefror 2011, tudalen 5 \[fel ar 1 Mawrth 2011\]](#)

⁴⁴ [Y Comisiwn Etholiadol, Statement by the Chair of the Electoral Commission and the Chief Counting Officer on the PVSC Act, Chwefror 2011 \[fel ar 25 Chwefror 2011\]](#)

⁴⁵ [Y Comisiwn Etholiadol, Refferendwm ar y System Bleidleisio Seneddol yn y DU, tudalen 9 \[fel ar 25 Chwefror 2011\]](#)

⁴⁶ [Y Comisiwn Etholiadol, Sefyllfaoedd a Gweithdrefnau: Y Cyfrif, Chwefror 2011, tudalen 3 \[fel ar 1 Mawrth 2011\]](#)

gyhoeddi'r amcangyfrif cywiraf y mae'n rhesymol bosibl ei wneud o'r ganran a bleidleisiodd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

5.6. *Darpariaethau cychwyn*

Pe bai mwyafrif y bobl yn pleidleisio o blaid defnyddio system Pleidlais Amgen, rhaid i'r Gweinidog perthnasol wneud gorchymyn yn dod ag Adran 9, Atodlen 10 a Rhan 1 o Atodlen 12 i PVSCA 2011 i rym.

Mae'r adrannau amrywiol hyn o PVSCA 2011 yn diwygio darpariaethau mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth ac yn nodi sut y bydd system etholiadol y Bleidlais Amgen yn gweithio yn ymarferol. Yn fwyaf arbennig:

- **Mae Adran 9(1) a (2) yn diwygio Atodlen 1 i Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983** i ddarparu manylion ynglŷn â sut y bydd pleidleisiau'n cael eu rhoi a'u cyfrif dan system y Bleidlais Amgen.
- **Mae Atodlen 10** yn gwneud rhagor o ddiwygiadau i reolau etholiadau seneddol, a deddfwriaeth arall, mewn perthynas â system y Bleidlais Amgen.
- **Mae Rhan 1 o Atodlen 12** yn dirymu rheolau etholiadau seneddol mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth, sef *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983*, *Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985*⁴⁷ a *Deddf Awdurdod Llundain Fawr 1999*,⁴⁸ er mwyn caniatáu i system y Bleidlais Amgen gael ei gweithredu.

Mae Adran 8(1)(b) yn nodi, fodd bynnag, **na ellir gwneud gorchymyn o'r fath nes bydd gorchymyn ychwanegol yn gweithredu'r newid ffiniau sy'n ofynnol dan PVSCA 2011 er mwyn lleihau maint Tŷ'r Cyffredin i 600, yn cael ei roi gerbron Senedd y DU** ac yn cael ei gyflwyno i'w Mawrhydi yn y Cyfrin Cyngor.

Pe ceid pleidlais negyddol, mae Adran 8(2) o PVSCA 2011 yn nodi bod yn rhaid i'r Gweinidog wneud gorchymyn yn dirymu'r darpariaethau yn PVSCA 2011 sy'n ymwneud â system etholiadol y Bleidlais Amgen.

⁴⁷ [Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1985 \(c.50\)](#)

⁴⁸ [Deddf Awdurdod Llundain Fawr 1999 \(c.29\)](#)

A. Atodiad: Prif Ddyddiadau Ymgyrch y Refferendwm

16 Chwefror 2011	Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau yn cael Cydsyniad Brenhinol. Cyfnod y Refferendwm yn dechrau.
15 Mawrth 2011	Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau i'r Comisiwn Etholiadol i fod yn brif ymgyrchydd dynodedig.
29 Mawrth 2011	Y dyddiad olaf i'r Comisiwn Etholiadol wneud penderfyniad ynglŷn â dynodi prif ymgyrchwyr.
7 Ebrill 2011 (canol dydd)	Y dyddiad olaf ar gyfer hysbysu ynglŷn â phenodiadau sy'n cael eu gwneud gan Asiantwyr Refferendwm.
14 Ebrill 2011 (5 pm)	Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau am bleidlais absennol, neu i newid neu ganslo pleidlais drwy'r post neu drwy ddirprwy.
14 Ebrill 2011 (ar ôl 5pm)	Rhestr derfynol y pleidleiswyr drwy'r post ar gael ar gais.
14 Ebrill 2011 (hanner nos)	Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau i fod ar y gofrestr etholwyr.
21 Ebrill (5pm)	Y dyddiad olaf i bleidleisio drwy ddirprwy, ac eithrio ceisiadau yn sgil argyfwng meddygol.
26 Ebrill 2011	Y dyddiad olaf i Asiantwyr Refferendwm benodi Asiantwyr Pleidleisio ac Asiantwyr Cyfrif. Y diweddariadau terfynol i'r gofrestr etholwyr yn cael eu cyhoeddi ac ar gael ar gais.
5 Mai 2011	Diwrnod y bleidlais (y gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7am a 10pm). Y dyddiad olaf ar gyfer dosbarthu papurau pleidleisio newydd yn lle'r papurau pleidleisio drwy'r post a ddifethwyd neu a aeth ar goll. Y dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy yn sgil argyfwng meddygol. Y dyddiad olaf i gywiro'r gofrestr etholwyr oherwydd camgymeriadau clerdyddol neu orchmynion llys.

4 Mehefin 2011	Y dyddiad olaf i'r ymgyrchwyr cofrestredig gael anfonebau.
4 Mehefin 2011	Y dyddiad olaf i'r ymgyrchwyr cofrestredig dalu anfonebau.
5 Awst 2011	Y dyddiad olaf i'r Comisiwn Etholiadol gael ffurflenni gwario a rhoddion os yw'r ymgyrchydd wedi gwario llai na £250,000.
5 Tachwedd 2011	Y dyddiad olaf i'r Comisiwn Etholiadol gael ffurflenni gwario a rhoddion os yw'r ymgyrchydd wedi gwario dros £250,000.